Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Proses Ymgeisio MPhil/PhD - Canllawiau i Ymgeiswyr PGW

Dylid meddwl yn ofalus cyn penderfynu astudio ar lefel ddoethuriaeth, gan fod PhD yn: "radd ddoethurol ôl-raddedig, a gaiff ei dyfarnu i fyfyrwyr sy'n cyflawni traethawd hir gwreiddiol yn cynnig cyfraniad sylweddol at wybodaeth yn eu pwnc." (www.findaphd.com) Fel arfer, PhD yw'r lefel uchaf o gymhwyster y gall academydd ei chyflawni.

Ymhlith y ffactorau y dylid eu hystyried wrth wneud cais i astudio ar lefel ddoethuriaeth mae cydnabyddiaeth o hyd a lled yr amser astudio personol, sydd fel arfer yn cynnwys cyfnod o leiaf tair blynedd, a dylid meddwl yn ofalus am lefel yr ysgrifennu academaidd sydd ei hangen i gyflawni gradd ymchwil. Dylai'r ymgeisydd sicrhau ei fod wedi penderfynu ar faes astudio, y hytrach na dewis pwnc heb ystyried yn ofalus, gweler postgrad.com i gael syniadau cychwynnol ac ymarferol.

Rhan hanfodol o'r broses ymgeisio yw fframio cwestiwn ymchwil sydd yn ddigon gwreiddiol a chymhleth, ac sydd â'r potensial i greu gwybodaeth newydd. Dylai'r cwestiwn alluogi'r darpar fyfyriwr i wneud gwaith ymchwil cychwynnol i'r maes pwnc perthnasol, gan ddefnyddio corff neu gyrff sefydledig o wybodaeth, a drafftio amcanion penodol a fydd yn cyfrannu at fframwaith cyd-destunol. Yna, bydd angen ysgrifennu cynnig cychwynnol.

Mae'r cynnig yn rhan o'r broses gyfweld orfodol, lle bydd panel academaidd yn trafod ystod o faterion ymarferol ond hefyd yn trafod y cynnig cychwynnol. Ar y cyfan, mae disgwyl i'r cyfweliad bara rhwng tri chwarter awr ac awr. Bydd y panel cyfweld yn cael ei gynnull pan fydd staff academaidd gyda gwybodaeth am y maes pwnc wedi darllen y ffurflen gais, y cymwysterau a'r cynnig. Mae bod yn drylwyr wrth baratoi'r dogfennau hyn yn dangos bod yr ymgeisydd wedi paratoi'n ofalus yn ystod y cam cynnar hwn.

O gofio bod MPhil/PhD yn rhywbeth academaidd tu hwnt, disgwylir i'r cynnig gynnwys adran gyflwyno/cyd-destunol fras, a fydd yn cynnwys y cwestiwn ymchwil. O'r adran hon, dylid cynnal mewnwelediad damcaniaethol, ar ffurf gwerthusiad llenyddiaeth ac adolygiad beirniadol cychwynnol, gan ddefnyddio ffynonellau academaidd. Dylid dyfynnu'r ffynonellau hyn yn unol ag egwyddorion fformat cyfeirnodi academaidd cydnabyddedig (e.e. Harvard neu APA). Mae adolygiad llenyddiaeth yn nodi'r sefyllfa fel y mae o ran y pwnc neu faes craidd, ac yn trafod y cynnwys ar ffurf crynodeb cydlynol a threfnus. Bydd y crynodeb hwn yn nodi bylchau drwy arddangos cyfyngiadau theorïau (rif.org.uk). Dylai'r camau hyn fod yn amlwg i'w gweld yn y cynnig cychwynnol.

Yna, dylai'r cynnig ddarparu tystiolaeth fod dull methodolegol wedi'i ystyried. Bydd hyn yn nodi'r elfennau a ddefnyddiwyd i ateb y cwestiynau ymchwil, gan gynnwys technegau penodol i gasglu, cynnull, dadansoddi a gwerthuso data. Felly, mae'n hanfodol darparu amlinelliad clir o sut bydd y data empirig yn cael ei gasglu a pha fath o ddull samplo a fydd yn cael ei ddefnyddio. Mae llawer o ymgeiswyr yn ystyried yr elfen hon yn benodol heriol, a bydd angen talu sylw penodol er mwyn atal rhwystrau a chyfyngiadau posibl yn hwyrach ymlaen yn y broses.

Er bod hyn yn anodd cyn dechrau ar astudiaeth ddoethurol, gellid sôn am y canfyddiadau a ragwelir a gwerth posibl yr astudiaeth i ymarferwyr, academyddion a llunwyr polisïau - sef y rhesymeg dros gyflawni'r ymchwil, a fydd yn effeithiol. Yn olaf, dylid ystyried i ble y gall yr ymchwil fynd nesaf.

Felly, mae'r fformat disgwyliedig yn debyg iawn i gynnig ymchwil y bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr eisoes wedi'i ysgrifennu yn rhan o draethawd hir ar lefel gradd Meistr, ond yn fwy cymhleth a chan drafod ymestyn ffiniau presennol y wybodaeth am y pwnc. Dylid cyflwyno'r ddogfen dan gyfres o benawdau, a disgwylir i'r testun gynnwys brawddegau a pharagraffau. Mae'n annhebygol y bydd rhestrau, pwyntiau bwledi a chynnwys sydd heb eu dilysu gan ffynonellau academaidd yn cael eu hystyried yn ddulliau paratoi boddhaol. O ran hyd, dylid cyflwyno'r cynnig gyda bwlch 1.5 rhwng bob llinell, a digon o gynnwys i lenwi chwe thudalen A4.

Fel canllaw, argymhellir y penawdau hyn: Crynodeb, Cyflwyniad/Cyd-destun (gyda chwestiwn ymchwil). Adolygiad o lenyddiaeth, methodoleg, canfyddiadau a ragwelir, meysydd ar gyfer ymchwil pellach a chyfeirnodau i gloi.

Mae'n bosibl y bydd goruchwylwyr doethurol yn trefnu trafodaeth anffurfiol a chyfleus gydag ymgeiswyr posibl er mwyn rhoi cymorth wrth ddatblygu'r cynnig cyn ei gyflwyno.

# Canllawiau Cynllun Prosiect Ymchwil Cyn Derbyn

Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad wrth i chi ddarparu rhagor o wybodaeth am eich maes pwnc bwriededig i banel cyfweld/Tîm Goruchwylio arfaethedig. Os cewch eich derbyn yn ffurfiol ar y rhaglen, bydd angen cynnig manylach ar ôl ymrestru (3 mis (llawn amser) neu 6 mis (rhan amser)).

## Manylion y Rhaglen Ymchwil

### Teitl y Traethawd Hir

Darparwch ‘deitl traethawd hir dros dro’.

### Cefndir a Chyd-destun

Nodwch y rhesymeg y tu ôl i’r astudiaeth a sut mae’n berthnasol i’r maes pwnc a gwaith blaenorol. Eglurwch faes eang eich ymchwil.

### Nod

Nodwch yn glir beth yw prif nod yr astudiaeth. Sylwch, fe’ch cynghorir i roi un nod os yw’n bosibl.

### Cwestiynau Ymchwil

Diffiniwch yn glir pa gwestiynau yr hoffech eu hateb. Nodwch pam rydych chi eisiau cyflawni’r ymchwil: pa fylchau neu wendidau sy’n bodoli mewn gwybodaeth bresennol a fydd yn cael eu llenwi gan eich ymchwil?

### Asesiad Risg

Nodwch pa risgiau sydd wedi’u hadnabod i’r ymchwilydd, y brifysgol, cydweithredwyr neu gyfranogwyr o ran yr astudiaeth, a nodwch y camau sydd wedi cael/a fydd yn cael eu rhoi ar waith i’w lleddfu neu eu gwaredu.

### Ymchwil i’w chyflawni y tu allan i Brifysgol Glyndŵr

Rhestrwch yr holl feysydd ymchwil a fydd yn cael eu cyflawni y tu allan i eiddo Prifysgol Glyndŵr. Cofiwch gynnwys manylion a lleoliadau.